

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn rhithwir ar 13 Medi, 2021

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Ieuan Williams
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Aled M. Jones, Dylan Rees, Dafydd Roberts

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyriwyd a phenderfynwyd –

O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriadig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

3. MODERNEIDDIO YSGOLION ARDAL LLANGFNI – AAS/ABA AR GYFER YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG

Cyflwynodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn ymgorffori'r Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol (AAS/ABA) ar gyfer sicrhau 65% o'r cyllid o dan Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru ar gyfer bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.

Rhoddodd y Cynghorydd R. Meirion Jones grynodedb o'r cefndir hyd yma. Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynghylch dyfodol Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn rhwng 6 Chwefror a 20 Mawrth 2020 ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ystyried y papur cynnig ym mis Ionawr 2020. Cyflwynwyd yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Rhagfyr 2020, ac ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed, penderfynwyd argymhell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai fwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol fel y ffordd fwyaf priodol ymlaen, sef cynyddu capasiti Ysgol y Graig i dderbyn disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Yn dilyn hynny, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig ar 17 Rhagfyr 2020.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod datblygu'r Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol yn nodi pwynt penodol yn y broses o gwblhau'r broses foderneiddio ysgolion yn y rhan hon o Langefni. Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr 2020 i fwrw ymlaen i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i dderbyn disgyblion o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn, cyhoeddwyd rhybudd statudol i'r perwyl hwnnw. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn nodi'r buddsoddiad disgwylidiedig yn Ysgol y Graig ar ran Llywodraeth Cymru, a fydd yn darparu 65% o gost y prosiect, ac ar ran y Cyngor a fydd yn darparu'r 35% arall. Gwneir buddsoddiad y Cyngor drwy gyfuniad o fentyha digymorth, derbyniadau cyfalaf a chyllid gan ddatblygwyr sy'n datblygu tai yn nalgylch Ysgol y Graig. Mae'r Achos Busnes hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r opsiynau amgen ar gyfer cyflawni'r amcanion buddsoddi yn unol â methodoleg Achos Busnes Llywodraeth Cymru. Nododd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y bydd y prosiect, yn ogystal â chyflawni buddiannau addysgol holl bwysig, yn diddymu'r gwariant presennol a rhagamcanol ar gynnal a chadw yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn cyfrannu at arbedion refeniw.

Bydd dau o banelau Llywodraeth Cymru yn craffu ar yr AAS/ABA ac yn eu herio – sef cyfarfod y Grŵp Craffu Achos Busnes ar 16 Medi 2021 a chyfarfod Panel Buddsoddi'r Rhaglen ar 14 Hydref 2021. Wedi hynny, cyflwynir yr Achos Busnes Llawn i'r Pwyllgor Gwaith.

Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i'r Swyddogion, ac yn arbennig staff y Gwasanaeth Trawsnewid, am y gwaith a wnaed i gynhyrchu dogfen mor fanwl a nodwyd y bu'r mater hwn dan ystyriaeth ers cryn amser. Wrth drafod yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith eglurhad ar ddau bwynt, un yn ymwneud â lleoedd i ddisgyblion a'r llall ynghylch amserlen cyfarfodydd panelau Llywodraeth Cymru ac roedd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn gallu rhoi sicrwydd ynghylch y materion hyn.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant bod Cadeirydd y Cyngor, ar 3 Medi 2021, wedi cytuno i gais a gyflwynwyd iddo ar 1 Medi 2021, sef, pe byddai'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo yna dylai'r penderfyniadau yn deillio ohonynt gael eu heithrio o'r broses galw i mewn i sgriwtini oherwydd gofynion amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyried y mater.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol (AAS/ABA) ar gyfer y bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.**
- **Cymeradwyo cyflwyno'r AAS/ ABA i Lywodraeth Cymru.**
- **Cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf ar gyfer adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r**

Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, i ddiwygio'r AAS/ABA os oes angen – os nad yw'r newidiadau'n arwain at newidiadau perthnasol (yn nhermau polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd partïon).

- **Neilltuo cyllid gan ddatblygwyr datblygiadau Tai o fewn dalgylch Ysgol y Graig i gyfrannu at gost y prosiect.**
- **Gyda chytundeb ymlaen llaw Cadeirydd y Cyngor, eithrio hawl Sgriwtini i alw'r penderfyniad i mewn gan y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yr Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol mewn cyfarfod ar 16 Medi 2021. Byddai unrhyw oedi o ran dyrannu cyllid yn niweidiol i ba mor gyflym y gellid rhoi'r prosiect ar waith.**

**Y Cyngorydd Llinos Medi
Cadeirydd**

DRAFT